# Cynllun Datblygu Lleol Amnewid

## 2023 - 2038

Rhagfyr 2024

## Strategaeth a Ffefrir Hawdd ei ddarllen



# Beth yw’r CDLlA?

Mae Cyngor Castell-nedd Port Talbot (CNPT) yn paratoi Cynllun Datblygu Lleol Amnewid (CDLlA). Bydd y CDLlA ar waith yn ystod y cyfnod 2023 – 2038, a bydd yn disodli'r CDLl a fabwysiadwyd ar gyfer 2011-2026.

Bydd y CDLlA yn nodi **ble** a **sut** bydd datblygiadau newydd yn digwydd **dros y 15 mlynedd nesaf**. Bydd yn cynnwys **dyraniadau safle** ar gyfer gwahanol ddefnyddiau tir, fel tai a chyflogaeth, a **pholisïau** i helpu i fynd i’r afael ag argyfyngau sydd wedi’u datgan o ran yr hinsawdd a natur, diogelu’r amgylchedd, sicrhau dylunio o ansawdd ac arwain y gwaith o greu lleoedd cynaliadwy bywiog. Pan gaiff ei fabwysiadu gan y Cyngor, bydd y CDLlA yn cael ei ddefnyddio fel y sylfaen ar gyfer pennu ceisiadau cynllunio.

Mae’r CDLlA bellach wedi cyrraedd y cam **Strategaeth a Ffefrir**. Nid y CDLlA terfynol yw’r Strategaeth a Ffefrir ac am hynny nid yw’n cynnwys yr holl bolisïau na’r cynigion defnydd tir na seilwaith y bydd eu hangen i gefnogi datblygu. Bydd y manylion hyn yn cael eu nodi yn y CDLlA Adneuo a fydd yn destun ymgynghoriad cyhoeddus a gynhelir tua diwedd 2025. Mae’r Strategaeth a Ffefrir wedi’i hategu gan gyfres o ddogfennau’n seiliedig ar dystiolaeth, gan gynnwys yr Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig (ACI/ISA) a’r Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd (ARhC/HRA).

## Camau’r CDLlA

Adolygiad o’r Cynllun Datblygu Lleol wedi’i Ddiweddaru Gorffennaf 2020

Cytundeb Cyflawni Tachwedd 2023

Sylfaen Dystiolaeth wedi’i Diweddaru a sefydlu Fframwaith ACI ac ARhC

Galwad am Safleoedd Ymgeisiol 2022 & 2023

RYDYM NI YMA

**Strategaeth a Ffefrir y CDLlA Rhagfyr 2024**

Parhau i ddiweddaru’r Sylfaen Dystiolaeth, yr ACI a’r ARhC

Ymgynghori ar y Cynllun Adneuo Llawn, Gaeaf 2025

Cyflwyno’r Cynllun Adneuo i Lywodraeth Cymru

Archwilio

Adroddiad yr Arolygydd

Mabwysiadu

# Beth yw'r CDLlA Strategaeth a Ffefrir?

**Y CDLlA yw'r cam ffurfiol cyntaf o ymgynghori â'r cyhoedd yn y broses o baratoi'r CDLlA.**

Mae'r Strategaeth a Ffefrir yn nodi Gweledigaeth ar gyfer y lle rydym am i Gastell-nedd Port Talbot fod yn 2038, materion ac amcanion, a strategaeth ofodol fras; gan gynnwys y twf yn y boblogaeth, tai a chyflogaeth a sut caiff y twf hwn ei wasgaru ar draws yr awdurdod.

Mae'r Strategaeth a Ffefrir yn cynnwys y canlynol:

## Strategaeth a Ffefrir?

**Cyd-destun Polisi –** Polisi Cenedlaethol a Deddfwriaeth, Strategaethau Rhanbarthol a Lleol.

**Cyd-destun Gofodol CNPT -** trosolwg o nodweddion gofodol a demograffig allweddol CNPT

**Asesiad Aneddiadau a Hierarchaeth Aneddiadau –** bydd y rhain yn helpu i lywio polisïau'r CDLlA, gan adlewyrchu'r themâu allweddol.

**Opsiynau Twf a Gofodol –** yn crynhoi'r strategaethau twf a gofodol a ystyriwyd cyn nodi'r opsiwn a ffefrir.

**Materion Allweddol, Gweledigaeth ac Amcanion** – bydd y rhain yn helpu i lywio polisïau'r CDLlA, gan adlewyrchu'r themâu allweddol.

**Polisïau Strategol -** Polisïau strategol allweddol yn ymdrin â materion yn gysylltiedig â thai, cyflogaeth a chreu lle, yn ogystal â pholisïau sy'n adlewyrchu'r materion allweddol.

**Y Strategaeth a Ffefrir -** yn nodi lleoliad trosfwaol datblygiadau'r dyfodol a lefel y twf hyd at 2038, wedi'u dangos mewn Diagram Allweddol.



# Gweledigaeth y CDLlA

Mae gweledigaeth y CDLlA yn mynd i'r afael â 14 o faterion. Fe'i crynhoir fel:

01 Argyfwng yr Hinsawdd

02 Argyfwng Byd Natur

03 Iechyd a Llesiant

04 Cynaliadwyedd

05 Treftadaeth, Diwylliant a'r Iaith Gymraeg

06 Teithio a Thrafnidiaeth Gynaliadwy

07 Cartrefi o bob math

08 Mynediad at amwynderau

09 Newid Economaidd

10 Seilwaith Economaidd


11 Ynni Adnewyddadwy

12 Mwynau a Gwastraff

13 Amgylcheddau Naturiol a Hanesyddol wedi'u Gwarchod a'u Diogelu

14 Llifogydd a Llygredd

Mae'r fersiwn llawn wedi'i gynnwys yn nogfen y Strategaeth y Ffefrir.



# Amcanion y CDLIA

**Mae 14 o amcanion strategol wedi'u cynnwys yn y CDLlA. Mae'r rhain wedi'u dangos isod:**

## Amcan 1

Lleiafu achosion y newid yn yr hinsawdd ac addasu i'r effeithiau cyfredol a'r rhai a ragwelir trwy wneud y canlynol:

- Lleiafu allyriadau nwyon tŷ gwydr;
- Mynnu bod lleoliad a dyluniad datblygiadau yn briodol; a
- Diogelu a gwella'r holl asedau amgylcheddol sy'n ofynnol ar gyfer addasu a gwydnwch yng nghyswllt yr hinsawdd.

## Amcan 2

Cyflawni budd net o ran bioamrywiaeth a gwell gwydnwch i ecosystemau yn sgîl datblygiadau newydd ar draws y fwrdeistref sirol.

## Amcan 3

Sicrhau bod pob datblygiad newydd yn darparu amgylchedd lleol iach sy'n annog ffordd fwy egnïol a iach o fyw i bob grŵp oed.

## Amcan 4

Gwireddu manteision llawn twf economaidd gwyrdd ar draws y fwrdeistref sirol i ddarparu cymunedau cwbl gynaliadwy ym mhob ardal leol, ochr yn ochr â diogelu amgylchedd Castell-nedd Port Talbot.

## Amcan 5

Cynnal, gwella a chyfoethogi unigrywiaeth cymunedau CNPT, gan gynnwys defnydd o'r Gymraeg, trwy gamau gweithredu cadarnhaol i greu lleoedd ar lefel leol.

## Amcan 6

Lleihau anghydraddoldebau gofodol ym maes teithio a thrafnidiaeth ar draws y fwrdeistref sirol trwy wella Teithio Llesol a chysylltiadau a gwasanaethau trafnidiaeth gyhoeddus, yn arbennig yn ardaloedd y cymoedd.

## Amcan 7

Cyflwyno cartrefi newydd digonol o safon uchel o'r mathau sy'n ofynnol yn y lleoliadau mwyaf addas i ddiwallu'r angen a nodwyd.

## Amcan 8

Annog a chefnogi cadw a darparu cyfuniad o gyfleusterau cymunedol, manwerthu, cyflogaeth a hamdden mewn lleoliadau priodol ar draws y fwrdeistref sirol.

## Amcan 9

Annog a galluogi technolegau a diwydiannau newydd, glân i ymsefydlu a thyfu, er mwyn hybu a chynnal rôl arweiniol i CNPT yn yr economïau adnewyddadwy a diwydiannol cenedlaethol a rhyngwladol.

## Amcan 10

Sicrhau bod holl ardaloedd CNPT yn gallu elwa o dwf economaidd a seilwaith economaidd modern addas i ddiwallu eu hanghenion a'u dyheadau economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol.

## Amcan 11

Galluogi CNPT i wneud cyfraniad priodol at gynhyrchu ynni adnewyddadwy a charbon isel, ochr yn ochr â hybu'r holl gamau priodol i leihau'r galw am ynni a gwella effeithlonrwydd ar draws pob sector.

## Amcan 12

Cadw a diogelu adnoddau, cronfeydd a seilwaith mwynau ochr yn ochr â gwneud cyfraniad priodol, cymesur i'r cyflenwad o fwynau i ddiwallu angen lleol, rhanbarthol a chenedlaethol, gan sicrhau ar yr un pryd bod effeithiau niweidiol yn cael eu lleiafu, a bod darparu cyfleusterau a phrosesau priodol ar gyfer trin, ailgylchu a gwaredu gwastraff yn cael eu hwyluso.

## Amcan 13

Sicrhau bod asedau ac amgylcheddau naturiol a hanesyddol CNPT, ei Seilwaith Gwyrdd, ei thirluniau, ei harfordir sydd heb ei datblygu a'i hardaloedd arfordirol yn cael eu cadw, eu diogelu a'u gwella.

## Amcan 14


Sicrhau bod materion amgylcheddol a newidiadau i'r dyfodol, gan gynnwys risg llifogydd, newid arfordirol ac afonol a materion llygredd yn cael eu hosgoi'n briodol, yn derbyn sylw, gan gyfyngu cymaint â phosibl ar yr effeithiau niweidiol.

# Strategaeth a Ffafrir

Teitl y Strategaeth a Ffefrir yw:
***"Cynorthwyo adferiad economaidd a gwerthfawrogi ein cyfleoedd unigryw yng Nghastell-nedd Port Talbot"***

## Mae'r CDLlA yn isrannu CNPT yn ddau faes strategol –

- **Ardal Cyfle'r Cymoedd** (sy'n cwmpasu ardaloedd gofodol Cwm Afan, Cwm Nedd, Cwm Dulais, Cwm Tawe, Dyffryn Aman a Phontardawe), a
- **Choridor yr Arfordir a'r Ardal Dwf Genedlaethol** (sy'n cynnwys ardaloedd gofodol Castell-nedd a Phort Talbot)



## Mae'r Strategaeth a Ffefrir yn ystyried:

- Nodi Port Talbot a Chastell-nedd yn **Ardal Dwf Genedlaethol Bae Abertawe a Llanelli** (fel nodwyd yn 'Cymru'r Dyfodol')
- Camau trosglwyddo G**waith Dur Tata** i'r Ffwrnais Arc Drydan
- Dynodiad **Porthladd Rhydd Celtaidd**
- **Cyfyngiadau amgylcheddol sylweddol**
- **Datblygiadau sydd wedi'u cynllunio** ar draws yr awdurdod

Dros gyfnod y cynllun, bydd hynny'n golygu:

- Darparu ar gyfer **4,176 o gartrefi** (gan gynnwys **lwfans hyblygrwydd o 20%**) (**278 y flwyddyn**) i ddiwallu'r **angen am 3,480 o gartrefi**; a
- Chefnogi cyflwyno **3,555 o swyddi** (**237 y flwyddyn**) a darparu ar gyfer **57Ha o dir cyflogaeth**


**Caiff y CDLlA ei ategu gan gyfres o ddogfennau cefndir yn seiliedig ar dystiolaeth, gan gynnwys:**

- Asesiad o'r Farchnad Dai Leol
- Asesiad Twf Economaidd a Thai
- Astudiaeth Dichonoldeb Lefel Uchel
- Papur Pwnc y Gymraeg
- Asesiad o Ynni Adnewyddadwy a Charbon Isel, a
- Asesiad Priffyrdd Strategol

Mae rhestr gyflawn ar gael yn y Strategaeth a Ffefrir

# Diagram Allweddol

Mae’r diagram allweddol yn dangos Strategaeth y CDLlA ac yn dangos maint CNPT ac ardal y CDLlA



Mae’r diagram allweddol yn dangos prif ffyrdd, hybiau trafnidiaeth gyhoeddus a chysylltedd; yr Ardal Dwf Genedlaethol a Choridor yr Arfordir ac Ardal Cyfle’r Cymoedd. Mae’n amlygu’r safleoedd cyflogaeth a thai allweddol, yn ogystal ag ardaloedd ar gyfer buddsoddiadau posib.

| | **Allwedd** | | Hyb Trafnidiaeth |
|---|---|---|---|
| | Choridor yr Arfordir a’r Ardal Dwf Genedlaethol | | Hwb Trafnidiaeth Dros Dro |
| | Ardal Cyfle’r Cymoedd | | Rhwydwaith Teithio Llesol |
| | Ardal Dwf Genedlaethol | | Priffyrdd Strategol |
| | Aneddiadau | | Porth |
| | Cysylltedd Cenedlaethol | | Prifysgol |
| | Safleoedd Tai Allweddol | | Canolfan Fyd-eang Rhagoriaeth Rheilffyrdd |
| | Ardal Gyflogaeth Allweddol | | Parciau Gwledig |
| | Hyb y Cymoedd | | Parc Rhanbarthol y Cymoedd |
| | Rheilffordd | | Parc Coedwig Afan |
| | Gorsafoedd Rheilffordd / Metro Presennol | | Atyniad Ymwelwyr - Rhaeadrau |
| | Gorsaf Metro Newydd Bosibl | | Canolfan Antur Wildfox |

Ⓗ Hawlfraint y Goron 2024 OS 100023392. Rhoddir trwydded ddirymiadwy, anghyfyngedig a heb freindal i chi i weld y data trwyddedig atddibenion anfasnachol am y cyfnod y mae ar gael gan Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot Nichewch gopïo, is-drwyddedu, dosbarthu na gwerthu unrhyw ran o’r data hwn i drydydd partïonmewn unrhyw ffurf.

# Polisïau Strategol

Mae'r Strategaeth a Ffefrir yn nodi 18 polisi strategol sy'n mynd i'r afael â'r materion allweddol ac sydd hefyd yn cyfrannu at gyflawni'r weledigaeth a'r amcanion

## Dewisiadau Strategol a Gofodol

- PS1 Creu Lleoedd Strategol
- PS2 Newid yn yr Hinsawdd
- PS3 Argyfwng Byd Natur, Bioamrywiaeth a'r Amgylchedd Naturiol
- PS4 Iechyd
- PS5 Creu Lleoedd ar Waith
- PS6 Ardaloedd Strategaeth

## Lleoedd Actif a Chymdeithasol

- PS7 Trafnidiaeth Gynaliadwy
- PS8 Tai
- PS9 Canolfannau Masnachol a Manwerthu

## Lleoedd Cynhyrchiol, Mentrus

- PS10 Twristiaeth
- PS11 Adferiad Economaidd
- PS12 Cynhyrchu Ynni Adnewyddadwy a Charbon Isel
- PS13 Mwynau
- PS14 Rheoli Gwastraff yn Gynaliadwy

## Lleoedd Unigryw a Naturiol


- PS15 Yr Amgylchedd Hanesyddol
- PS16 Seilwaith Gwyrdd
- PS17 Cefn Gwlad, Tirluniau, a'r Arfordir heb ei Ddatblygu
- PS18 Amddiffyn yr Amgylchedd



# Safleoedd Allweddol

Er mwyn cyflawni twf strategol y cynllun a chyfrannu at fodloni'r gofyniad a nodwyd am dai a chyflogaeth, mae'r safleoedd allweddol canlynol wedi'u nodi ar draws y Fwrdeistref Sirol.
Mae dogfen y Strategaeth a Ffefrir yn amlinellu'r cyfyngiadau, y gofynion seilwaith a'r egwyddorion creu lle sy'n gysylltiedig â phob safle allweddol a nodwyd.

## Coed Hirwaun, Margam



**Ffynhonnell:**
RLDP/PT/0042, RLDP/PT/2015, RLDP/PT/UC024

**Datblygiad Arfaethedig:**
Nifer dangosol o 900 o anheddau (400 o fewn cyfnod y CDLlA) ac ysgol gynradd newydd cyfrwng Cymraeg.


## Tir i'r dwyrain o'r Rhos



**Ffynhonnell:**
RLDP/P/0027, RLDP/P/0029 and RLDP/P/0030

**Datblygiad Arfaethedig:**
Datblygiad Preswyl Dangosol (400 o gartrefi) ac ysgol gynradd newydd cyfrwng Cymraeg.

## Tir yn ymyl Blaenbaglan



**Ffynhonnell:**
RLDP/PT/UC0003

**Datblygiad Arfaethedig:**
Preswyl Dangosol – 341 o anheddau, gan gynnwys dyraniad presennol o 141

## Fferm Fforest, Aberdulais



**Ffynhonnell:**
RLDP/N/0005, RLDP/N/0006 and RLDP/N/UC007

**Datblygiad Arfaethedig:**
Preswyl dangosol (250 o gartrefi) a thir ar gyfer ysgol arbennig

Ⓗ Hawlfraint y Goron 2024 OS 100023392. Rhoddir trwydded ddirymiadwy, anghyfyngedig a heb freindal i chi i weld y data trwyddedig atddibenion anfasnachol am y cyfnod y mae ar gael gan Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot Nichewch gopïo, is-drwyddedu, dosbarthu na gwerthu unrhyw ran o'r data hwn i drydydd partïonmewn unrhyw ffurf.

# Safleoedd Allweddol parhad...

## Porthladd Port Talbot



**Ffynhonnell:**
RLDP/PT/0048 a RLDP/PT/2009

**Datblygiad Arfaethedig:**
Cyflogaeth, seilwaith cludiant ac ynni adnewyddadwy


## Gwaith Dur Port Talbot



**Ffynhonnell:**
RLDP/PT/0041

**Datblygiad Arfaethedig:**
Cyflogaeth; ynni adnewyddadwy

## Parc Ynni Baglan



**Ffynhonnell:**
RLDP/PT/0008

**Datblygiad Arfaethedig:**
Cyflogaeth

## Canolfan Fyd-eang Rhagoriaeth Rheilffyrdd



**Ffynhonnell:**
RLDP/DV/0022

**Datblygiad Arfaethedig:**
Seilwaith trafnidiaeth

## Canolfan Antur Wildfox



**Ffynhonnell:**
RLDP/AV/0001

**Datblygiad Arfaethedig:**
Twristiaeth a hamdden

Ⓗ Hawlfraint y Goron 2024 OS 100023392. Rhoddir trwydded ddirymiadwy, anghyfyngedig a heb freindal i chi i weld y data trwyddedig atddibenion anfasnachol am y cyfnod y mae ar gael gan Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot Nichewch gopïo, is-drwyddedu, dosbarthu na gwerthu unrhyw ran o'r data hwn i drydydd partïonmewn unrhyw ffurf.

# Beth sy’n digwydd nawr?

Byddai’r Cyngor yn croesawu eich barn am Strategaeth a Ffefrir y CDLlA ac mae’n rhoi cyfle i chi gael dweud eich dweud ar ddyfodol CNPT.

Bydd ymgynghoriad sy’n para 8 wythnos yn cael ei gynnal rhwng **hanner dydd Ddydd Iau 12 Rhagfyr 2024 a hanner dydd Ddydd Iau 6 Chwefror 2025**. Bydd hyn yn rhoi cyfle i’r cyhoedd a phartïon eraill â diddordeb gynnig eu safbwyntiau yn ysgrifenedig i’r Cyngor. Caiff yr holl sylwadau a ddaw i law eu cofnodi a’u hystyried. **Ni** fydd unrhyw sylwadau sy’n cael eu derbyn ar ôl hanner dydd ar 6 Chwefror 2025 yn cael eu hystyried.

Mae’r Strategaeth a Ffefrir a’r holl ddogfennau ategol ar gael i’w gweld ar wefan y Cyngor (https://beta.npt.gov.uk/cdlln/saff/) ac mae copïau o’r Strategaeth a Ffefrir wedi’u rhoi yng Nghanolfannau Dinesig Castell-nedd a Phort Talbot Civic, yn ogystal ag yn y Ceiau.

## Sut i gyflwyno sylwadau ar y Strategaeth a Ffefrir

Mae modd cynnig sylwadau ar yr ymgynghoriad ar y Strategaeth a Ffefrir yn y ffyrdd canlynol:

- **Ar-lein –** gan ddefnyddio **Porth Ymgynghori CDLl** (yn https://beta.npt.gov.uk/cdlln/saff/ ). Byddai’r Cyngor yn annog bod pob ymateb ar y Strategaeth a Ffefrir yn cael ei gyflwyno yn y modd hwn.
- **E-bost –** gan ddefnyddio ffurflen sylwadau sydd ar gael ar ein gwefan (a nodir uchod). Mae modd e-bostio ffurflenni atom yn ldp@npt.gov.uk.
- **Drwy’r post –** Mae modd argraffu’r ffurflen sylwadau. Dylech bostio unrhyw ffurflenni sylwadau atom yn: **Yr Adran Polisi Cynllunio, Y Ceiau, Ffordd Brunel, Castell-nedd SA11 2GG.**

## Beth fydd yn digwydd ar ôl yr ymgynghoriad?

Bydd y Cyngor yn ystyried yr holl sylwadau a gynigir yn briodol. Caiff Adroddiad Ymgynghori Cychwynnol ei baratoi a fydd yn nodi pwy yr ymgynghorwyd â nhw, y prif faterion a godwyd a sut mae’r sylwadau hyn wedi dylanwadu ar gam nesaf y gwaith o baratoi’r Cynllun – sef y CDLlA Adneuo. Os byddwch yn cyflwyno sylwadau i ni, cewch eich ychwanegu i’n cronfa ddata ymgyngoreion ac yn derbyn hysbysiadau am ymgyngoriadau yn y dyfodol.

